



Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur

Allwch chi ein helpu ni? Mae angen eich syniadau a'ch cefnogaeth ar gyfer ein prosiectau datblygu treftadaeth ac allgymorth

Elusen a sefydlwyd yn 2006 yw Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur, a'i nod yw gwarchod treftadaeth hanesyddol a phensaernïol adeiladau fferm Mynachlog Fawr yn Ystrad Fflur a datblygu'r addysg i'r cyhoedd mewn perthynas â'r adeiladau, Ystrad Fflur a'r dirwedd a'r dreftadaeth o'u hamgylch. Nod yr Ymddiriedolaeth yw gwneud hyn trwy adfer yr holl adeiladau i greu Canolfan Ystrad Fflur; lle sy'n dathlu hanes, diwylliant a thirwedd Cymru trwy ddigwyddiadau, hyfforddiant preswyl a dibreswyl ac arlwy profiad i ymwelwyr yn y ffermdy.



Hanes a Chefndir

Heddiw, mae Ystrad Fflur yn cynnwys llawer o wahanol elfennau, o adfeilion yr abaty o'r 12fed ganrif; i eglwys y Santes Fair a adeiladwyd ar safle gwreiddiol capeli'r abaty ar ddechrau'r 19eg ganrif; i Fferm gyfagos Mynachlog Fawr o'r 17eg ganrif a brynwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 2016.

Arferai Abaty Ystrad Fflur, sydd bellach yng ngwarchodaeth Cadw, gael ei adnabod yn annwyl fel Abaty San Steffan Cymru, ac arferai fod yn ganolfan ddiwylliant, crefydd a masnach bwysig, gyda chysylltiadau ar draws tirwedd Cymru. Mae'n bosibl i ddau o'r llawysgrifau Cymraeg pwysicaf sydd wedi goroesi, sef Brut y Tywysogion a Llawysgrif Hendregadredd, gael eu hysgrifennu yn Ystrad Fflur. Mae Dafydd ap Gwilym, bardd canoloesol enwocaf Cymru, wedi'i gladdu yn y fynwent, yn yr un modd â sawl un o Dywysogion Cymru'r oesoedd canol.

Adeiladwyd ffermdy rhestredig Gradd II* Mynachlog Fawr yn wreiddiol ym 1670-80 fel plasty i'r bonedd o weddillion ffreutur yr abaty ar ôl y Diddymiad ym 1539. Ar ôl addasu, mae'r llawr gwaelod heddiw'n cynnwys parlwr panelog sy'n cynnwys nodweddion o'i orffennol bonheddig gan gynnwys peintiad panel o ddiwedd yr 17eg ganrif a nenfydau peintiedig; grisiau o'r 17eg ganrif, a chegin fawr sy'n gwarchod ffitiadau o'i ddefnydd fel ffermdy tenant Cymreig yn y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif. Roedd gan y tŷ, sy'n ymestyn dros sawl canrif, a'r gwrthrychau ynddo stori bensaernïol a hanes cymdeithasol rhyfeddol i'w dweud. Fodd bynnag, mae'r tŷ mewn cyflwr gwael iawn erbyn hyn ac angen ei atgyweirio ar frys, ac ni chaniateir mynediad i unrhyw aelod o'r cyhoedd. Mae'r Tŷ Pair a'r cartws, y stablau, yr ysgubor a'r beudy i gyd wedi'u rhestru'n adeiladau gradd II, gan ddyddio o ddiwedd yr 17eg ganrif i ddiwedd y 19eg ganrif.



Prosiectau Cyfredol

Arddangosfa Mynachlog Fawr Exhibition

Ar ôl adfer yr adeilad cyntaf, sef Y Beudy yn 2019, er mwyn creu ystafell gyfarfod a swyddfa; bu'r Ymddiriedolaeth yn llwyddiannus yn gynharach yn 2020 i sicrhau cyllid i drawsnewid Tŷ Pair a'r cartws yn Arddangosfa Mynachlog Fawr Exhibition. Dechreuodd y gwaith ar y safle ar ddiwedd mis Medi a gobeithiwn agor y safle i'r cyhoedd ym mis Mai 2021.

Bydd y prosiect yn creu lle mynediad am ddim sy'n olrhain stori'r fferm trwy'r arddangosfa "Mynachlog Fawr mewn 30 Gwrthrych". Gan y bydd yn cynnwys amrywiaeth o wrthrychau a dogfennau o'r ffermdy ac adeiladau'r fferm, bydd yn rhoi cyfle i ymwelwyr o bob oedran ddarganfod ac ymgysylltu â hanes cymdeithasol y tŷ a'r gymuned. Yn ogystal, bydd yr arddangosfa'n gartref i profiad rhyngweithiol ac addysgol digidol a fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr deithio'n ôl i weld diwrnod ym mywyd Fferm Mynachlog Fawr yn ystod y 1930au a'r 40au. Bwriedir hefyd i'r adeilad fod yn lle i ymwelwyr ymlacio a mwynhau'r adeilad hanesyddol, gyda chadeiriau nesaf at y lle tân canoloesol mawreddog, peiriant coffi a detholiad o lyfrau hanes ail law a lleol ar gael i'w darllen.



Ysgol Maes Archeoleg Ystrad Fflur

Agorodd Ysgol Maes Archeoleg Ystrad Fflur (YMAYFf) ei drysau (a'i ffosydd) am y tro cyntaf yn 2019. Yn anffodus, cafodd ysgol 2020 ei chanslo oherwydd covid-19, ond rydym wedi aildrefnu ar gyfer 2021.

Cynigia YMAYFf raglen hyfforddiant hollol hygyrch ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o dechnegau cloddio a thirfesur archeolegol; o ddeall sut i ddefnyddio trywel yn gywir i gasglu data geoffisegol ar gyfer

mapio archeolegol. Cynigiwn gymysgedd o gyrsiau preswyl a chysiau undydd a chroesawn bobl o bob oedran heb brofiad archeolegol blaenorol i'r rhai sydd am adeiladu ar eu sgiliau blaenorol.

Mae ein hysgol maes yn wahanol i bob un arall oherwydd ei nod yw bod yr ysgol archeolegol fwyaf cynhwysol yn y DU. Rydym wedi partneru gyda Breaking Ground Heritage (BGH), sef ein partner cynhwysiant cymdeithasol. Mae BGH yn arbenigo mewn hyrwyddo lles ac adferiad trwy weithgareddau seiliedig ar dreftadaeth, yn benodol i unigolion gyda heriau ffisegol/seicoleg ddifrifol (yn bennaf, ond heb fod yn unigryw, i hen lawiau).

Ein bwriad yw rhannu hanes unigryw, archeoleg, treftadaeth a chysylltiadau Ystrad Fflur gyda diwylliant Cymreig, gyda chynulleidfa mor amrywiol â phosibl, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd, myfyrwyr, gwirfoddolwyr, hen lawiau ac eraill.



Prosiect Treftadaeth, Datblygu ac Allgymorth Ystrad Fflur

Nod ein prosiect arfaethedig nesaf yw ymgysylltu â chymunedau lleol a chenedlaethol Cymru gydag Arddangosfa Mynachlog Fawr, Ysgol Maes Archeoleg Ystrad Fflur a hanes cyfoethog ehangach y safle a'r dirwedd; o'i wreiddiau Sistersaidd canoloesol i'w harwyddocâd cymdeithasol ac amaethyddol. Rydym am weithio gydag ysgolion, prifysgolion, grwpiau ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cais i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am gyllid i benodi Swyddog Ymgysylltiad Treftadaeth am 3 blynedd i sicrhau y gall pobl ddysgu a chael profiad o'r safle, ar leoliad a thrwy estyn allan. Bydd y Swyddog Prosiect yn cyflwyno rhaglen weithgareddau a digwyddiadau cyffrous yn y meysydd allweddol canlynol:

Ysgolion, Prifysgolion ac Allgymorth: Rydym am i'r Swyddog Ymgysylltu Treftadaeth ddenu diddordeb plant ac oedolion o bob oed i gymryd rhan yn y prosiect trwy raglen o ymweliadau, gweithgareddau, gweithdai a digwyddiadau ar y safle ac oddi ar y safle. Gall pobl ddysgu am amryw o bynciau, o archeoleg ganoloesol y safle a'i bwysigrwydd yn hanes Cymru i straeon ffermio a hanes cymdeithasol mwy diweddar fel a geir yn ein harddangosfa a'n deunydd ar-lein. Gan gyd-fynd yn agos â'r cwricwlwm, byddai'r amrywiaeth hwn o feysydd pwnc yn cynnig dull amgen a diddorol i blant ysgol allu dysgu am ddiwylliant a hanes Cymru. Yn ogystal ag ysgolion, byddai'r Swyddog Ymgysylltu Treftadaeth yn ceisio gweithio mewn ffordd debyg gyda phrifysgolion a dewis eang o grwpiau diddordeb.

Arddangosfa Mynachlog Fawr: Yn dilyn agor Arddangosfa Mynachlog Fawr ym mis Mai 2021, bydd gennym le i ymwelwyr gael cyfle i ymchwilio i arferion ffermio a hanes cymdeithasol ein safle. Gan fod y tîm mewn cyflwr gwael iawn ar hyn o bryd ac yn anaddas i ymwelwyr, hwn fydd ein cyfle cyntaf i ennyn diddordeb ymwelwyr yn y modd hwn. Bydd y Swyddog Ymgysylltu Treftadaeth yn defnyddio'r arddangosfa a'r deunydd ar-lein i addysgu grwpiau ac ysgolion ar ac oddi ar y safle, i'w helpu i ddeall ac archwilio'r safle'n fanylach.

YMAYFF: Nod yr ysgol faes yw cynyddu sgiliau archeoleg, ennyn diddordeb y gymuned leol ac ehangach yn archeoleg a hanes y safle ac yn hollbwysig, gwella lles ac iechyd meddwl ei chyfranogwyr a hybu cynhwysiant. Bydd y Swyddog Ymgysylltu Treftadaeth yn rhan o'r tîm i sicrhau bod SFAFS o fudd i gyfranogwyr sy'n ceisio dysgu sgiliau a chael hyfforddiant ychwanegol (trwy fodiwl achrededig), y rhai sydd â diddordeb mewn archeoleg a hanes, unigolion sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, a rhai sydd wedi cael profiad o gael eu heithrio naill ai'n gorfforol neu'n gymdeithasol.

Gwirfoddolwyr: Mae gwirfoddolwyr eisoes yn rhan hanfodol o'n gwaith yn Ystrad Fflur, gan gynnig eu sgiliau i helpu i gyflawni'r prosiect ar y safle, a chael profiad a phleser yr un pryd. Byddai'r Swyddog Ymgysylltu Treftadaeth yn gweithio i ehangu nifer ein gwirfoddolwyr, ac ymgysylltu â'r gwirfoddolwyr presennol yn llawnach, gan ddarparu mwy o amrywiaeth o ran rolau a digwyddiadau, megis cynnal teithiau o amgylch y cloddiadau, archifo a rheoli casgliadau a datblygu arddangosfeydd.

Rhaglen wirfoddoli i hyfforddi pobl ifanc ym maes treftadaeth: Byddai'r Swyddog Ymgysylltu Treftadaeth yn dechrau rhaglen wirfoddoli o bell ar-lein i helpu pobl rhwng 16 a 25 oed i gael profiad o wirfoddoli ym maes treftadaeth er mwyn gwella eu sgiliau a'u cyflogadwyedd. Gallai hyn gynnwys rolau gwirfoddol i drawsgrifio deunyddiau archif; creu catalog digidol hygyrch ar-lein o ffotograffau a dogfennau; datblygu cyfryngau cymdeithasol a blogiau; a chodi arian ym maes treftadaeth. Byddai hyn yn galluogi pobl ifanc o Safon Uwch hyd at lefel raddedig i ennill profiad yn eu maes diddordeb, sy'n cyd-fynd â'u dull gweithio, waeth beth yw eu lleoliad, gan wella eu cyflogadwyedd er gwaethaf y cyfyngiadau teithio ffisegol neu Covid.

Cyrsiau Adeiladu Traddodiadol: Bydd y Swyddog Ymgysylltu Treftadaeth ochr yn ochr â chydweithwyr eraill yn gweithio i greu a datblygu nifer o gyrsiau adeiladu traddodiadol, gan ddefnyddio gwybodaeth am y modd yr adeiladwyd y safle yn y gorffennol i helpu i gynyddu sgiliau lleol mewn technegau fel codi waliau cerrig sych. Byddai 2021/22 yn flwyddyn dreialu i brofi'r cysyniad hwn gyda chysiau undydd byrrach, gan arwain at y posibilrwydd o ehangu nifer, hyd ac amrywiaeth y cyrsiau a gynigir yn y blynyddoedd dilynol. Bydd hyn o fudd i'r gymuned trwy ddatblygu sgiliau crefftwyr lleol, gan sicrhau buddion economaidd, yn ogystal â gwaith cadwraeth ac atgyweirio o ansawdd uwch o ganlyniad i fwy o wybodaeth am sgiliau traddodiadol. Hefyd, crefftwyr a chontractwyr medrus lleol a fyddai'n cyflwyno'r cyrsiau, gan sicrhau budd economaidd pellach i'r gymuned. I dechrau, byddai 3 chwrs yn cael eu cynnal dros y 12 mis nesaf, gyda thua 15 o gyfranogwyr ar bob cwrs.

Lles: Mae iechyd meddwl a lles yn ganolbwynt allweddol i'r YMAYFf, ac rydym yn gobeithio ehangu hyn ar draws mwy o'n gweithgareddau. Gwyddom fod treftadaeth a mannau naturiol yn gallu bod o fudd i lesiant, a chafodd y mwynhad a geir o'r safleoedd hyn ei amlygu yn ystod pandemig Covid-19. Trwy bartneriaeth ag Ymddiriedolaeth Fathom, byddai'r Swyddog Ymgysylltu Treftadaeth yn helpu i ddarparu nifer o weithgareddau ar y safle ac yn yr ardal er budd iechyd meddwl cyfranogwr.



Sut gallwch chi helpu?

Os ydych chi'n meddwl yr hoffech chi neu'ch sefydliad gymryd rhan yn ein prosiect ymgysylltu ac allgymorth treftadaeth, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau neu adborth, er enghraifft, pa weithgareddau yr hoffech eu gweld neu sut rydych chi'n meddwl y gallwn weithio gyda'ch sefydliad yn ymarferol? Bydd yr holl sylwadau'n cael eu hystyried wrth gwblhau'r cais i'r NLCF.

Byddwn ni wir yn gwerthfawrogi pe gallech gysylltu trwy'r post, e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol.

Cysylltu

Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur, Y Beudy, Mynachlog Fawr, Heol yr Abaty, Pontrhydfendigaid, Ceredigion, SY25 6ES.

www.strataflorida.org.uk info@strataflorida.org.uk



@YstradFflur



@YstradFflur



@ystradfflurstrataflorida